Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.gov.wales/significant-infrastructure-projects-sip-guidance

PCAC
PEDW
Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# FFURFLEN GAIS PROSIECT SEILWAITH ARWYDDOCAOL

**Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â llenwi'r ffurflen hon ar ôl darllen ein harweiniad, cysylltwch â Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) trwy PEDW.seilwaith@llyw.cymru neu drwy ffonio 0300 123 1590.**

Mae'n rhaid i gais Prosiect Seilwaith Arwyddocaol a wnaed yn ddilys gael ei dderbyn o fewn 18 mis o'r datganiad 'Derbyn Hysbysiad' oni bai bod y cyfnod wedi'i ymestyn yn unol â'r Rheoliadau a'i gadarnhau'n ysgrifenedig i PCAC.

---

**Rhif Cyfeirnod y Cais**
(fel y'i nodwyd ar ddatganiad 'Derbyn Hysbysiad' PCAC)

**Teitl y Prosiect**
(fel y'i nodwyd ar wefan yr ymgeisydd yn ystod y cam cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn-ymgeisio statudol)

**Gwefan y Prosiect**
(cyfeiriad gwefan yr ymgeisydd yn ystod y cam cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn-ymgeisio statudol)

---

## 1. YR YMGEISYDD

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

---

## 2. YR ASIANT (OS OES UN) AR GYFER Y CAIS

| | |
|---|---|
| Enw Cyswllt | |
| Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

---

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54610
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**3. MANYLION PERSONOL (ni fydd y rhain ar gael yn gyhoeddus)**

**a. MANYLION PERSONOL YR YMGEISYDD**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |
| E-bost | |

**b. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes un)**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |
| E-bost | |

**4. LLEOLIAD Y SAFLE A/NEU'R LLWYBR**

Disgrifiad o leoliad safle(oedd) y cais, neu lwybr y datblygiad.

| |
|---|
| |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r safle'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ardal Forol Cymru*? | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
| A yw'r safle'n safle unigol neu'n safle llinellol?** | Unigol | ☐ | Llinellol | ☐ |

Darparwch gyfeirnod(au) Grid

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| UNIGOL: | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINELLOL: Dechrau | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINELLOL: Canol | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |
| LLINELLOL: Diwedd | Dwyreiniad | | Gogleddiad | |

* Ardal Forol Cymru fel y'i diffinnir yn Adran 143(1) Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

** Os oes nifer o safleoedd, darparwch gyfeirnod(au) Grid ar gyfer pob un ar ddalen ar wahân.

## 5. YMWELIAD SAFLE

A oes modd gweld y safle o ffordd gyhoeddus, llwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffylau neu dir cyhoeddus arall? Oes ☐ Nac oes ☐

A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle neu'n agos ato y byddai angen i'r Awdurdod Archwilio eu hystyried petai ymweliad safle'n cael ei gynnal? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, esboniwch isod:

Os bydd angen ymweliad safle, gyda phwy y dylid cysylltu i wneud trefniadau eraill? Yr Ymgeisydd ☐ Yr Asiant ☐ Arall ☐

Os dewisoch "Arall", rhowch fanylion:

Enw a manylion cyswllt

## 6. DISGRIFIAD O'R DATBLYGIAD

## 7. RHESTR WIRIO CYFLWYNO DOGFENNAU

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu rhestr ar wahân o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais y gellir ei diweddaru os bydd angen yn ystod y broses archwilio. Darllenwch arweiniad PCAC **Prosiectau seilwaith arwyddocaol (SIP): canllawiau | LLYW.CYMRU** cyn cyflwyno. Ticiwch ba rai o'r canlynol yr ydych wedi'u cyflwyno, lle bo'n berthnasol.

Bydd PCAC yn derbyn ceisiadau sy'n gyflawn ac yn ddilys yn unig. Gall dogfennau sydd ar goll oedi'r broses neu arwain at ddychwelyd eich cais i chi.

**Mae'n rhaid i bob cais gynnwys y canlynol:**

a. Unrhyw ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ☐

b. Cynllun lleoliad safle ☐

c. Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (ICO) drafft (dwyieithog) ☐

d. Memorandwm Esboniadol (dwyieithog) ☐

e. Adroddiad ymgynghori cyn-ymgeisio (PAC) ☐

f. Unrhyw gynlluniau neu luniadau eraill, neu wybodaeth arall sy'n angenrheidioli ddisgrifio'r cynnig ☐

g. Lluniadau trawstoriadol sy'n dangos graddfeydd llorweddol a fertigol unrhyw waith a gynigir ar y safle ☐

h. Copi o'r datganiad 'Derbyn Hysbysiad' a gyhoeddwyd gan PCAC ☐

i. Datganiad ynglŷn â Niwsansau Statudol o dan Adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ☐

**7. RHESTR WIRIO CYFLWYNO DOGFENNAU (Parhad)**

**Lle bo'n berthnasol, mae'n rhaid i geisiadau gynnwys y canlynol:**

(Ticiwch i gadarnhau pa ddogfennau cyflwyno sy'n berthnasol i'ch cais ac sydd wedi cael eu cyflwyno)

| | | Perthnasol | Dd/B |
|---|---|---|---|
| k. | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol | ☐ | ☐ |
| l. | Datganiad Amgylcheddol | ☐ | ☐ |
| m. | Asesiad o ganlyniadau llifogydd | ☐ | ☐ |
| n. | Datganiad sy'n nodi pwy fydd yn gyfrifol am ddylunio ac adeiladu'r cysylltiad â'r grid trydan | ☐ | ☐ |
| o. | Datganiad sy'n nodi pwy fydd yn gyfrifol am ddylunio ac adeiladu'r cysylltiad piblinell nwy | ☐ | ☐ |
| p. | Ar gyfer datblygiadau o fewn Ardal Forol Cymru: | | |
| p(i). | Manylion llwybr a dull gosod arfaethedig unrhyw geblau | ☐ | ☐ |
| p(ii). | Datganiad o dan Adran 95 Deddf Ynni 2004 | ☐ | ☐ |
| q. | Digon o wybodaeth i lywio asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | ☐ | ☐ |

**Pwysig:** Mae dogfennau ychwanegol penodol yn ymwneud â rhai categorïau Prosiect Seilwaith Arwyddocaol, ac mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o'r cyflwyniad. Mae'r rhestr wirio hon ar gael yn Atodiad 1 y ffurflen hon.

Os yw'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn cynnwys cydsyniadau tybiedig, gweler y rhestr wirio ychwanegol a geir yn Atodiad 2 y ffurflen hon.

## 8. DATGANIAD YR YMGEISYDD

**Ticiwch y blychau i gadarnhau:**

i. Mae'r cais hwn yn cael ei gyflwyno o fewn 18 mis o ddyddiad y datganiad 'Derbyn Hysbysiad' (oni bai ei fod wedi'i ymestyn). ☐

ii. Rwyf yn deall na fydd unrhyw weithgarwch ymgynghori nac ymgysylltu a gynhaliwyd cyn derbyn datganiad 'Derbyn Hysbysiad' PCAC yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig hwn yn gyfystyr â'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori cyn-ymgeisio sy'n ofynnol yn statudol o dan Adran 30 Deddf Seilwaith (Cymru) 2024. ☐

iii. Rwyf yn cadarnhau bod y ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru wedi cael ei thalu, a bod manylion y taliad wedi'u cynnwys yn Adran 9 y ffurflen hon. ☐

iv. Rwyf yn deall y caiff PCAC ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennyf at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ac y bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar-lein. Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwyf yn cytuno i'r wybodaeth a roddaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. ☐

v. Rwyf wedi cyflwyno copi o unrhyw gyngor cyn-ymgeisio a roddwyd gan PCAC, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a/neu'r awdurdod(au) cynllunio perthnasol. ☐

vi. Rwyf wedi cyflwyno rhestr o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd yn rhan o'r cais. ☐

vii. Rwyf yn cadarnhau bod yr holl gynlluniau a lluniadau wedi'u tynnu wrth raddfa adnabyddadwy sy'n dangos cyfeiriad y gogledd. ☐

viii. Rwyf wedi cyflwyno copi o'r ffurflen hon a'r holl ddogfennau ategol i bob awdurdod cynllunio perthnasol y mae'r datblygiad wedi'i leoli yn ei ardal, yn ogystal â CNC os yw'r datblygiad o fewn Ardal Forol Cymru. ☐

ix. Rwyf wedi hysbysu'r bobl/sefydliadau canlynol o'r Cais ar yr adeg cyflwyno:

- Pob awdurdod cynllunio perthnasol y mae'r prosiect wedi'i leoli yn ei ardal. ☐
- Pob cyngor cymuned, os yw'n bresennol, y mae'r prosiect wedi'i leoli yn ei ardal. ☐
- Pob aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal y mae'r prosiect wedi'i leoli ynddi ac unrhyw rai eraill yr ystyrir ei bod yn briodol eu hysbysu. ☐
- Pob aelod o Dŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli ardal y mae'r prosiect wedi'i leoli ynddi ac unrhyw rai eraill yr ystyrir ei bod yn briodol eu hysbysu. ☐
- Ar gyfer prosiectau sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn Ardal Forol Cymru; pob awdurdod cynllunio a phob cyngor cymuned y mae ei forlin yn wynebu lleoliad y prosiect, ynghyd â CNC. ☐
- Yr ymgyngoreion statudol ac arbenigol perthnasol yn unol ag atodlen Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025. ☐
- Unrhyw unigolyn neu sefydliad arall a hysbyswyd o dan Adran 29(1) Deddf Seilwaith (Cymru) 2024. ☐

x. Rwyf wedi cyflwyno dalen ar wahân sy'n rhestru manylion cyswllt yr holl unigolion uchod a hysbyswyd, gan gynnwys enw llawn a sefydliad (lle bo'n berthnasol), a'r cyfeiriad post a/neu e-bost a ddefnyddiwyd i'w hysbysu. ☐

**9. FFI**

Sylwch na allwn dderbyn taliadau BACS heb godi anfoneb yn gyntaf. Cysylltwch â ni drwy **PEDW.seilwaith@llyw.cymru** i drefnu codi anfoneb cyn cyflwyno'ch cais. Ni fydd amserlen PCAC ar gyfer prosesu'ch cais yn dechrau nes i ni dderbyn y ffi.

Rhowch fanylion yr anfoneb a'r dyddiad talu:

| |
|---|
| |

---

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Enw (MEWN PRIFLYTHRENNAU) | |
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad | |

---

**ANFONWCH GOPI ELECTRONIG ATOM YN:**

Cysylltwch â **PEDW.seilwaith@llyw.cymru** i drefnu cyflwyno'ch cais yn electronig.

**Neu anfonwch ef at:**

Y Tîm Gwaith Achos Seilwaith PCAC
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Llinell gymorth: **0300 123 1590**

**Anfonwch neges e-bost at PEDW.seilwaith@llyw.cymru i drefnu cyflwyno dogfennau'n electronig. Pan fyddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn ei gydnabod o fewn 3 diwrnod gwaith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi beth fydd y camau nesaf tebygol ac yn rhoi syniad o faint o amser y bydd yn ei gymryd i ni gwblhau ein gwiriadau a chadarnhau a fydd y cais yn cael ei Dderbyn i'w archwilio neu ei wrthody.**

## ATODIAD 1: GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER CATEGORÏAU PENODOL O BROSIECTAU SEILWAITH ARWYDDOCAOL

Efallai y bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau ychwanegol yn rhan o'r cais os yw'r datblygiad arfaethedig yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf isod. Dylai dogfennau ychwanegol a gyflwynir gael eu cyfeirnodi'n briodol yn y rhestr a ddarperir.

**Ticiwch y blychau canlynol, lle bo'n berthnasol:**

**1. Os yw'r cais yn effeithio ar ardal gadwraeth/ardaloedd cadwraeth neu adeilad(au) rhestredig a'u lleoliad neu heneb gofrestredig, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ☐

b. Datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ☐

**2. Os yw'r cais ar gyfer adeiladu neu newid cyfleusterau harbwr, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Datganiad sy'n esbonio pam mae Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn ddymunol o safbwynt effeithlonrwydd, economaidd, hyfywedd, hamdden, a thrafnidiaeth. ☐

**3. Os yw'r cais yn effeithio ar dir y Goron, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Datganiad bod y Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith drafft yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â thir y Goron neu hawliau sy'n gymwys i'r Goron. ☐

b. Copi o'r awdurdodiad gan awdurdod perthnasol y Goron sy'n cydsynio i'r ddarpariaeth (os yw'n berthnasol). ☐

**4. Os yw'r cais yn cynnwys caffael tir yn orfodol, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Llyfr cyfeirio sy'n rhestru'r holl fuddiannau tir y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt a'u manylion cyswllt. ☐

b. Ochr yn ochr â'r llyfr cyfeirio, dogfen sy'n croesgyfeirio sylwadau cyn-ymgeisio a dderbyniwyd gan barti/partïon â buddiant. ☐

c. Copi o unrhyw hysbysiad a roddwyd i unrhyw barti/partïon â buddiant a nodwyd. ☐

d. Cynllun sy'n dangos y tir arfaethedig sydd i'w gaffael yn orfodol, unrhyw dir sydd i'w gaffael ond ei eithrio o'r ardal ddatblygu, unrhyw dir y byddai hawliau preifat arno'n cael eu diddymu ac unrhyw dir categori arbennig neu unrhyw dir a ddarperir fel tir cyfnewid ar gyfer y datblygiad arfaethedig. ☐

e. Cynllun ar wahân sy'n dangos y tir sy'n destun caffael gorfodol wedi'i groesgyfeirio â'r parti/partïon â buddiant a nodwyd, ynghyd â shapefile. ☐

f. Datganiad o'r rhesymau sy'n cyfiawnhau'r caffael gorfodol, gan esbonio pam mae achos cymhellol drosto er budd y cyhoedd. ☐

g. Datganiad ariannu sy'n esbonio sut bydd y caffael gorfodol yn cael ei ariannu. ☐

## ATODIAD 2: GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER CYDSYNIADAU TYBIEDIG

Os yw'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith yn cynnwys cydsyniadau tybiedig, efallai y bydd angen cyflwyno'r dogfennau ategol canlynol gyda'r cais, yn dibynnu ar y math o gydsyniad a geisir. Ticiwch y blychau canlynol, lle bo'n berthnasol.

**1. Os yw'r cais yn ceisio dybio cydsyniadau a restrir yn atodlenni Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Datganiad sy'n nodi pa gydsyniadau y mae'r Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (ICO) yn bwriadu eu tybio, gan nodi'r gofynion perthnasol a fyddai'n cael eu bodloni fel arfer gan gydsyniad(au) ar wahân yr ymdrinnir â nhw neu sydd wedi'u hymgorffori yn yr ICO drafft (gellir cynnwys y datganiad hwn yn y Memorandwm Esboniadol). ☐

**2. Os yw'r cais yn ceisio Trwydded Forol Dybiedig, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a. Trwydded Forol Dybiedig ddrafft neu atodlen i'r ICO drafft. ☐

b. Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio gofynion y Drwydded Forol Dybiedig. ☐

c. Datganiad ynglŷn â'r ddealltwriaeth bresennol rhwng yr ymgeisydd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gysylltiedig â'r Drwydded Forol Dybiedig arfaethedig, gyda'r holl gyngor cyn-ymgeisio ynglŷn â'r drwydded wedi atodi i'r datganiad hwn. ☐

**3. Os yw'r cais yn ceisio cydsyniad ar gyfer:**

a. **Trwyddedau a roddir o dan:**

- **Adran 10 Deddf Cadwraeth Morloi 1970, neu**
- **Adran 10 Deddf Gwarchod Moch Daear 1992**

**mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

a(i). Manylion ecolegydd trwyddedig, ynghyd â'i brofiad a'i gymwysterau. ☐

a(ii). Manylion asiant trwyddedig (os yw'n berthnasol). ☐

a(iii). Datganiad dull ynglŷn â sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud. ☐

b. **Trwydded archaeolegol o dan Adran 1(3) Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

b(i). Disgrifiad o'r llongddrylliad a'i leoliad (os yw'n berthnasol). ☐

b(ii). Manylion yr archaeolegydd arweiniol. ☐

b(iii). Datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru. ☐

c. **Trwydded o dan Adran 8 Deddf Ceirw 1991, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

c(i). Copi o'r ffurflen gais 'Trwydded i Symud Ceirw' wedi'i llenwi. Mae'r ffurflen ar gael gan **Cyfoeth Naturiol Cymru**. ☐

**ATODIAD 2: GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER CYDSYNIADAU TYBIEDIG (Parhad)**

d. **Cydsyniad draenio tir o dan Adran 23 Deddf Draenio Tir 1991, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

- d(i). Cyfeirnod grid y safle yr effeithir arno. ☐
- d(ii). Disgrifiad o'r gwaith a'i ddiben. ☐
- d(iii). Datganiad dull sy'n manylu ar osod a chynnal a chadw. ☐

e. **Cydsyniadau gollwng dŵr/cwrs dŵr o dan:**

» **Adran 166 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu**

» **Adran 32 Deddf Adnoddau Dŵr 1991**

**mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

- e(i). Cynlluniau a lluniadau o'r gosodiad draenio, y pwynt gollwng, a'r pwynt monitro. ☐
- e(ii). Datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys: ☐
  - a yw'n ollyngiad unigol neu'n sawl gollyngiad o un safle,
  - enw a chyfeiriad y safle,
  - enw'r cwrs dŵr sy'n derbyn,
  - lleoliadau'r pwyntiau gollwng a samplu,
  - y rhesymau dros ollwng,
  - diamedr y bibell ollwng,
  - o ba fath o ased y daw'r gollyngiad,
  - pryd y rhyddhawyd dŵr yn flaenorol (cronfeydd dŵr yn unig),
  - y math o ollyngiad,
  - y cyfaint gollwng amcangyfrifedig,
  - y gyfradd ollwng,
  - pryd rydych yn bwriadu gollwng,
  - i ble y bydd y dŵr yn draenio,
  - mesurau manwl i liniaru risg llygredd a mesurau lliniaru.

f. **Trwydded amgylcheddol o dan Reoliad 13 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

- f(i). Datganiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cadarnhau gofynion trwy ymgysylltiad cyn-ymgeisio â CNC. ☐

g. **Trwydded allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

- g(i). Y dystiolaeth a nodir yn Atodlen 6 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020. ☐

**ATODIAD 2: GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER CYDSYNIADAU TYBIEDIG (Parhad)**

h. **Cydsyniadau o dan Adran 6 ac Adran 10 Deddf Tiroedd Comin Coety Walia 1976, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

h(i). Tystiolaeth o ymgynghori â chorff rheoli'r tir comin. ☐

i. **Gorchmynion map diffiniol/hawliau tramwy o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

i(i). Copi wedi'i lenwi o'r ffurflen gais gan yr Awdurdod Gwneud Gorchymyn perthnasol. ☐

j. **Gorchmynion Rheoleiddio Traffig o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

j(i). Copi wedi'i lenwi o'r ffurflen gais gan yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol. ☐

k. **Cydsyniadau gwaith coed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Gorchymyn Diogelu Coed/Ardaloedd Cadwraeth), mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

k(i). Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth. ☐

l. **Gorchmynion cau/gwyro o dan Adran 247 ac Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

l(i). Copi wedi'i lenwi o'r ffurflen gais Cau a Gwyro Priffyrdd o dan Adran 247 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. ☐

l(ii). Cynllun Gorchymyn arfaethedig yn Gymraeg a Saesneg. ☐

l(iii). Y Memorandwm Esboniadol sy'n cyfeirio at ble mae cymalau sy'n ymwneud â chau/gwyro wedi'u lleoli yn yr ICO drafft. ☐

m. **Cydsyniadau tiroedd comin dan Adran 17 Ddeddf Tiroedd Comin 2006, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:**

m(i). Cynllun wrth raddfa 1:2,500 o leiaf os yw ar gael, a dim llai na 1:10,000 sut bynnag, sy'n dangos: ☐

- ffin y tir a ryddheir wedi'i marcio'n goch;
- os yw'r tir a ryddheir yn rhan o'r tir mewn uned cofrestr fwy, ffin y tir yn yr uned cofrestr honno wedi'i marcio'n wyrdd tywyll; a
- ffin unrhyw dir cyfnewid wedi'i marcio'n wyrdd golau.

m(ii). Copi o'r cofnod yn y gofrestr sy'n ymwneud â'r tir a ryddheir neu dir sy'n ei gynnwys. ☐

m(iii). Unrhyw ohebiaeth â chorff rheoli'r tir comin neu'r cominwyr, os yw ar gael. ☐

m(iv). Datganiad Tir Comin. ☐

m(v). Copi o'r ffurflen gais o dan Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006. ☐